

**Cofnodion wedi'u Cadarnhau o
Gyfarfod Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru
a gynhaliwyd yn gyhoeddus
Dydd Mawrth 17 Medi 2024**
Microsoft Teams/Yn Bersonol
yn Charnwood Court, Nantgarw, CF15 7QZ

Aelodau:

Ian Green	(IG)	Cadeirydd, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Susan Elsmore	(SE)	Aelod Lleyg, JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Richard Evans	(RE)	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Philip Kloer	(PK)	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Nicola Prygodzicz	(NP)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (o 10:42am, eitem 3.5)
Nia Roberts	(NR)	Aelod Lleyg, JCC GIG Cymru
Carol Shillabeer	(CS)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Hayley Thomas	(HT)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Paul Worthington	(PW)	Aelod Lleyg, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)

Dirprwyon:

James Calvert	(JC)	Cyfarwyddwr Meddygol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (hyd at 10:42am, eitem 3.5)
Marie Davies	(MD)	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol dros dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (yn bersonol)
Linda Prosser	(LP)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (yn rhannol)

Aelod Cyswllt:

Abigail Harris	(AH)	Prif Gomisiynydd Dros Dro, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
----------------	------	--

Yn Bresennol:

Carole Bell	(CB)	Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, Tîm Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Iolo Doull	(ID)	Cyfarwyddwr Meddygol, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Georgina Galletly	(GG)	Cyfarwyddwr Pontio a Thrawsnewid CBC GIG Cymru (yn bersonol)

Stephen Harrhy	(SH)	Cyfarwyddwr Bwrdd Dros Dro/Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Ambiwylans. Tîm Cydbwyllgor Comisiynu (yn bersonol)
Nicola Johnson	(NJ)	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, Tîm Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Jason Killens	(JK)	Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Helen Low	(Helen)	Claf (hyd at eitem 1.4)
Jacqui Maunder	(JM)	Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, CBC GIG Cymru (yn bersonol)
Shane Mills	(SM)	Cyfarwyddwr Comisiynu ac Iechyd Meddwl, Tîm Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Rachel Marsh	(RM)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Angela Mutlow	(AM)	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais
Stacey Taylor	(ST)	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodaeth, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Helen Tyler	(HTy)	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru
Ross Whitehead	(RW)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Ambiwylans, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)
Yn Arsyilwi:		
Saja Muwaffak	(SMu)	Rheolwr y Rhaglen/ Rheolwr Gwybodaeth a Chanlyniadau, CBC GIG Cymru
Gwen Kohler	(GK)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, CBC GIG Cymru
Ymddiheuriadau:		
Paul Mears	(PM)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Suzanne Rankin	(SR)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Nick Wood	(NW)	Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
Cofnodion:		
Karla Williams	(KW)	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro, Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (yn bersonol)

Dechreuodd y cyfarfod am 9.00am

Cyf Cofnod	Eitem Agenda
CBC24/064	<p>1.1 Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd, Ian Green (IG) aelodau, mynychwyr ac arsylwyr i gyfarfod cyhoeddus Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBC).</p> <p>Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio, a chadarnhawyd y byddai'r recordiad ar gael ar wefan y CBC yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni.</p>
CBC24/065	<p>1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb a'u rhestru fel yr uchod.</p>
CBC24/066	<p>1.3 Datganiadau o Fuddiant Datganodd Abigail Harris (AH) ddiddordeb o ran trafodaethau ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) fel darparwr Gwasanaethau Llawfeddygaeth Blastig ar gyfer De Cymru yn dilyn ei phenodiad yn Brif Swyddog Gweithredol parhaol newydd BIPBA</p> <p>Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eraill yn ymwneud â'r eitemau i'w trafod ar yr agenda.</p>
CBC24/067	<p>1.4 Stori Claf Derbyniodd yr aelodau Stori'r Claf a chroesawodd Carole Bell (CB) Helen Low (Helen) i'r cyfarfod, ac eglurodd ei bod yn gyn glaf mewnol yn Nhŷ Llidiard, ysbyty iechyd meddwl i blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nododd yr aelodau fod yr uned yn gwasanaethu De Cymru a'i bod yn un o ddwy uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) arbenigol yng Nghymru. Cafodd y gwasanaeth ei wneud yn destun uwchgyfeirio yn 2018. Treuliodd y gwasanaeth nifer o flynyddoedd yn destun uwchgyfeirio ac o'r diwedd daeth hyn i ben yn 2023.</p> <p>Gwylodd yr aelodau glip fideo ITV a oedd yn cynnwys cyfweiliad gyda Helen, ac roedd y fideo yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr uned wrth iddi fod yn destun uwchgyfeirio. Roedd pwysigrwydd ymgysylltu â chleifion yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol yn y gwelliannau. Roedd y stori hefyd yn tynnu sylw at y cydweithio rhwng yr hen Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (PGIAC) a'r Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (UCCG) wrth gefnogi'r Bwrdd Iechyd (HB).</p> <p>Diolchodd Helen i bawb am y cyfle i rannu ei stori ac esboniodd pa mor ddig oedd hi'n teimlo i ddechrau gan ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei hanwybyddu a'i bod wedi colli ymddiriedaeth yn y system. Gyda'r cymorth cywir roedd Helen wedi gallu trawsnewid ei bywyd</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>ac ar hyn o bryd roedd hi'n fyfyrwr meddygol yn ei hail flwyddyn. Dros y flwyddyn a hanner diwethaf, roedd hi wedi siarad mewn grwpiau Llywodraeth Cymru (LIC) am ei phrofiad bywyd ac roedd hwn wedi bod yn brofiad gwerthfawr iawn. Dywedodd Helen ei bod yn teimlo bod ei llais yn cael ei glywed a diolchodd i Lloyd Griffiths (LG), Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (BIPCTM) a'r tîm am eu cefnogaeth.</p> <p>Nododd yr aelodau fod Helen wedi gallu rhannu ei stori yn ystod y misoedd diwethaf yn y gobaith y byddai hyn yn helpu i greu newidiadau hirdymor i gleifion a'i bod wedi dyfeisio dogfen ganllaw i gleifion i gefnogi cleifion yn y dyfodol, sef "Sut orau i gefnogi cleifion ag anhwylderau bwyta" y cytunodd y gellid ei rhannu ag aelodau.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Mae'r canllaw i gleifion "Sut orau i gefnogi cleifion ag anhwylderau bwyta" i'w rannu ag aelodau'r CBC.</p> <p>Roedd yr aelodau'n cydnabod pa mor anodd oedd hi i Helen rannu ei stori a chafodd ei chanmol am ei dewrder. Amlygodd Ian Green (IG) fod ei stori yn cael effaith gadarnhaol er gwaethaf yr anawsterau cychwynnol a wynebodd.</p> <p>Diolchodd Susan Elsmore (SE) i Helen gan ddweud ei bod wedi gweld y fideo yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ac roedd clywed y stori'n uniongyrchol gan Helen ei hun yn ddadlennol iawn ac yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y byddai'n ei chael, nid yn unig nawr, ond yn y dyfodol pan ddaw'n weithiwr meddygol proffesiynol.</p> <p>Tynnodd Paul Worthington (PW) sylw at y dyfyniad, "yn gwneud amser anodd ychydig yn well" a oedd yn bwerus iawn, a dywedodd ei bod yn dda gweld y newidiadau a wnaed i alluogi hyn i ddigwydd. Gofynnodd IG a oedd gan Helen unrhyw neges i'r CBC fel comisiynydd y gwasanaeth hwn. Dywedodd Helen ei fod yn bwysig i ganolbwyntio ar rywbeth y tu allan i'r amgylchedd clinigol a thynnodd sylw at y ffaith mai addysg oedd ei chymhelliant a'i bod wedi ei helpu. Fodd bynnag roedd addysg yn dod i ben pan oedd rhywun yn 16 oed yn Nhŷ Llidiard, ac nid oedd hyn o gymorth i bob claf, gan nad oedd pawb a gyfeiriwyd yno yn bobl ifanc.</p> <p>Holodd AH sut roedd Helen yn cymryd rhan fel claf i helpu, ac a ddylai gwasanaethau iechyd i gleifion ifanc ymestyn i 25 oed, gan fod y parhad a'r pontio yn aml yn cael eu colli. Cadarnhaodd Shane Mills (SM) ei fod yn gweithio ar hyn o bryd i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y manylebau gwasanaeth ar gyfer fframweithiau.</p>

Cyf Cofnod	Eitem Agenda
	<p>Diolchodd IG i bawb am eu sylwadau a diolchodd i Helen am rannu ei stori ysbrydoledig.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Llythyr o ddiolch i'w anfon gan Gadeirydd y CBC at Helen i ddiolch iddi am rannu ei stori fel claf.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi stori'r claf.
CBC24/068	<p>1.5 Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 a Materion yn Codi</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion.</p>
CBC24/069	<p>1.6 Log Camau Gweithredu</p> <p>Nododd yr aelodau y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a amlinellwyd yn y log gweithredu a chytunwyd fod y camau gweithredu a nodir fel rhai 'wedi'u cwblhau'.</p> <p>Rhoddodd Jacqueline Maunder (JM) ddiweddariad byr ar y ddau gam gweithredu agored:</p> <ul style="list-style-type: none"> • CBC24/006 Trefniadau Comisiynu GIG 111 Cymru - rhoddwyd diweddariad o dan yr adroddiad perfformiad ac roedd gwaith yn cael ei ddatblygu a bydd diweddariad pellach yn cael ei roi yng nghyfarfod mis Tachwedd; a • CBC24/058 Perfformiad Gwasanaeth y Ambiwllans - Cafwyd trafodaethau ar Berfformiad y Gwasanaeth Ambiwllans yn ystod diwrnod datblygu'r CBC ar 20 Awst 2024, ac yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwllans a 111 newydd, roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adroddiadau perfformiad ambiwlansys, a bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad perfformiad ar gyfer cyfarfod y Cydbwyllgor ar 12 Tachwedd 2024.
CBC24/070	<p>2.1 Adroddiad y Cadeirydd</p> <p>Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd, a nododd yr aelodau y cyfarfodydd allweddol a fynychwyd a'r diweddariadau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio ar gyfer y Prif Gomisiynydd – Llongyfarchodd y Cadeirydd AH, y Prif Gomisiynydd Dros Dro, ar ei phenodiad i swydd Prif Swyddog Gweithredol BIP Bae Abertawe, a rhoddodd gyngor ar y broses recriwtio ar gyfer sicrhau Prif Gomisiynydd parhaol dros yr wythnosau nesaf; a

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"> • Phenodi Aelodau Lleyg - Roedd tîm penodiadau Cyhoeddus LIC wedi symud ymlaen â'r broses recriwtio ar gyfer penodi dau aelod lleyg ychwanegol i'r CBC. Nododd yr Aelodau fod dau enw wedi'u rhoi gerbron Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w hystyried yn dilyn y cyfweiliadau, gyda'r bwriad i'r aelodau lleyg newydd ddechrau ar eu dyletswyddau ym mis Tachwedd 2024. <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad.
CBC24/071	<p>2.2 Adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro</p> <p>Derbyniwyd adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro a nododd yr aelodau y diweddariadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2024-27: Amodau Atebolrwydd - Ar 9 Awst 2024 derbyniwyd llythyr gan Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru, yn hysbysu'r CBC bod y CTCI a gyflwynwyd gan y cyn Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (PGAB) a'r PGIAC ar 31 Mawrth 2024, ynghyd â'r templedi blaenoriaeth Gweinidogol, wedi'u hasesu fel rhai boddhaol, • Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Adroddiad Terfynol – Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru - Bydd yr Adroddiad Terfynol gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ynghylch gwasanaethau ambiwlans yn cael ei ystyried, a bydd adroddiad manwl yn cael ei ddwyn yn ôl i gyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol yn dilyn y gwaith y bydd y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwllans a 111 yn ei wneud ar yr argymhellion yn yr adroddiad, • Gwasanaeth Ysgogi yn Nyfnder yr Ymennydd – Darparwyd diweddariad ar y newid gwasanaeth dros dro sydd ar waith o ran atgyfeiriadau i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Bryste, • Uned Mamau a Babanod Gogledd Cymru – Cadarnhaodd SM mai'r dyddiad cwblhau gwreiddiol oedd haf 2024 ond y dyddiad gweithredu dros dro newydd bellach oedd 15 Awst 2025. Roedd yr oedi o ganlyniad i gaffael contractwyr a bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yr wythnos nesaf; ac • Adolygiad Cardiaidd Cam 2 - Rhoddwyd diweddariad cynhwysfawr ar y cynnydd hyd yma gyda Cham 2 a fydd yn cyflawni cynllunio galw a chapasiti, ac wedi'i lywio gan asesiad o anghenion y boblogaeth, ac yn dod i ben gyda gwerthusiad o'r opsiynau sy'n sefydlu'r cyfluniad gwasanaeth a ffefrir yn y

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>dyfodol ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd a gweithgareddau Mewnblaniad Falf Aorta drwy Gathetr (TAVI) a gomisiynwyd gan PGIAC, yn ogystal â datblygu manyleb gwasanaeth llawdriniaeth gardiaidd newydd. Gofynnodd Marie Davies (MD) am syniad o'r amserlenni. Dywedodd AH y bydd diweddariad manylach yn cael ei roi maes o law, unwaith y bydd adnodd pwrpasol ar waith.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad.
CBC24/072	<p>3.1 Fframwaith Llywodraethu y Cydbwyllgor Comisiynu</p> <p>Derbyniwyd adroddiad y Fframwaith Llywodraethu a rhoddodd JM ddiweddariad ar ddatblygu elfennau terfynol fframwaith llywodraethu CBC GIG Cymru.</p> <p>Nododd yr Aelodau, yn unol â chynllun dirprwyo a chadw pwerau'r CBC, y byddai cymeradwyo fframwaith llywodraethu'r CBC yn cael ei gadw gan Fyrddau Iechyd Felly, gofynnwyd i'r aelodau adolygu a chymeradwyo strwythur arfaethedig yr is-bwyllgor, y cylch gorchwyl cysylltiedig, y cytundeb Lletya a'r memorandwm cytundeb. Yn dilyn cyfarfod y CBC, bydd y gyfres o ddogfennau'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Byrddau Iechyd unigol ym mis Medi 2024 i'w cymeradwyo'n derfynol.</p> <p>Dywedodd JM fod y dogfennau wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r drafodaeth yng nghyfarfod Ysgrifenyddion Cyfarwyddwyr Bwrdd ar 6 Medi 2024 a bydd adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2025.</p> <p>Nododd yr Aelodau, er mwyn sicrhau bod y CBC yn gweithredu'n effeithiol fel Cydbwyllgor, fod Memorandwm Cytundeb wedi'i sefydlu rhwng pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd, sy'n nodi'r ymrwymiad a'r ffyrdd o weithio, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau y cytunwyd arnynt o Brif Swyddogion Gweithredol pob Bwrdd Iechyd cyfansoddol fel swyddogion unigol sy'n aelodau o'r CBC.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod Cytundeb Lletya wedi'u sefydlu rhwng y Corff Lletya, BIPCTM, a'r chwe Bwrdd Iechyd arall i amlinellu trefniadau atebolrwydd a chyfrifoldebau canlyniadol y Corff Lletya a'r CBC a'i dîm. Yn ystod ymgysylltu ar ddatblygu'r Cytundeb Lletya drafft, nodwyd bod angen rhagor o waith i sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r CBC mewn perthynas ag:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymdrin â Phryderon; ac

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori ac Ymgysylltu mewn perthynas â newid gwasanaeth <p>Roedd gwaith eisoes wedi dechrau gyda sefydlu gweithgorau â chynrychiolaeth y Byrddau Iechyd i ddatblygu protocolau mewn perthynas â phob un o'r meysydd hyn. Nodwyd y byddai ymgysylltu â Chyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol ac arweinwyr Gweithredol Byrddau Iechyd eraill yn hanfodol.</p> <p>Gofynnodd MD a fyddai digon o amser i anfon y dogfennau hyn at Fyrddau Iechyd ar gyfer cyfarfodydd bwrdd mis Medi 2024, a chadarnhaodd JM fod y llinell amser wedi'i chytuno gyda'r Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol ac y bydd yr adroddiad a'r dogfennau yn cael eu hanfon at Fyrddau Iechyd yn syth ar ôl y cyfarfod.</p> <p>Nododd Nia Roberts (NR) wall teipio yn adran 3.5.5 o'r Cytundeb Lletya a gofynnodd am eglurhad ar adran 11.3. Cytunodd JM i ddiweddarau'r adrannau hyn.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod Rheolau Sefydlog y CBC yn nodi y gall y cydbwyllgor benodi cyd-is-bwyllgorau o'r cydbwyllgor i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y cydbwyllgor neu i roi cyngor a sicrwydd i eraill. Fan leiaf, roedd angen sefydlu trefniadau cyd-is-bwyllgor sy'n cynnwys agweddau canlynol ar fusnes y cydbwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio a Risg, • Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (QSO); a • Chynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF). <p>Cyflwynodd JM y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer yr is-bwyllgor QSO a'r is-bwyllgor PPF a nododd yr aelodau eu bod yn cynnwys sylwadau a chyfraniadau a dderbyniwyd yn dilyn trafodaethau gyda grŵp Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol y Byrddau Iechyd.</p> <p>Cododd NR amheunon am adran 4 y strwythur QSO, gan gynghori mai dim ond Aelodau Lleyg oedd yn aelodau swyddogol ac roedd Byrddau Iechyd yn bresennol. Cadarnhaodd JM y byddai'r aelodaeth ffurfiol yn cynnwys 3 x Aelod Lleyg y CBC a byddai Prif Weithredwr (CEO) enwebedig yn bresennol. Dywedodd JM fod hyn wedi'i drafod gyda grŵp y Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol a chytunwyd y byddai Prif Weithredwyr yn cael eu dynodi fel mynychwyr yn unig ac mai hwn oedd yr un model a fabwysiadwyd ar gyfer is-bwyllgorau mewn Byrddau Iechyd.</p> <p>Gofynnodd Carol Shillabeer (CS) am eglurhad ar ddynodi Prif Weithredwyr fel mynychwyr gan fod sgysiau blaenorol yn Sesiynau</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>Datblygu'r CBC wedi ystyried Prif Weithredwyr fel aelodau o'r is-bwyllgorau. Gwnaeth Georgina Galletly (GG) roi sicrwydd i'r aelodau bod sgysiau parhaus wedi bod gyda'r grŵp Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol, a'u barn nhw oedd y dylai Byrddau Iechyd fod yn fynychwyr yn unig oherwydd gwrthdaro posibl. Gofynnodd Philip Kloer (PK) am esboniad manylach ar y gwrthdaro. Tynnodd IG sylw at bwysigrwydd egluro hyn ac awgrymodd y dylid cynnal sgysiau pellach gan gydnabod bod y CBC yn sylfaenol wahanol i Fwrdd Iechyd.</p> <p>CAM GWEITHREDU: JM i wneud ymholiadau pellach gyda grŵp cymheiriaid Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol GIG Cymru ynghylch aelodaeth yr is-bwyllgor a bydd sgysiau pellach yn cael eu cynnal gydag aelodau'r CBC.</p> <p>Dywedodd NR y byddai llawer o gyfrifoldeb gan y 3 Aelod Lleyg. Fel Cydbwyllgor, roedd angen sicrhau bod Prif Weithredwyr yn bresennol gan ei fod yn bwysig bod eu lleisiau'n cael eu clywed.</p> <p>Dywedodd JM fod y Cylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Archwilio a Risg BIPCTM ar gyfer cyrff lletyol wedi'i ddiweddarau i gyfeirio at y CBC sydd newydd ei sefydlu ac ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan gyfarfod Bwrdd BIPCTM ar 26 Medi 2024 byddent yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cydbwyllgor er gwybodaeth ym mis Tachwedd.</p> <p>Nododd yr Aelodau mai'r bwriad oedd i strwythur newydd is-bwyllgorau'r CBC ddod i rym o 1 Rhagfyr 2024, i gyd-fynd â phenodi Aelodau Lleyg newydd y Cydbwyllgor, ac y byddai adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i gyfarfod mis Tachwedd yn cynnig aelodaeth aelodau lleyg a Phrif Weithredwyr.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau i Aelodau Annibynnol Byrddau Iechyd a fu'n ymwneud â'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion PGIAC etifeddol yn ystod y cyfnod pontio gael gwybod am y trefniadau is-bwyllgor newydd a'r newid i'r aelodaeth ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Aelodau Annibynnol y Byrddau Iechyd presennol o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion etifeddol i gael gwybod am y newidiadau i aelodaeth unwaith y bydd strwythur yr is-bwyllgor newydd wedi'i gymeradwyo.</p> <p>Dywedodd PK y bydd yr adrodd gan yr is-bwyllgorau i'r CBC yn allweddol a bydd angen i hyn gynnwys digon o wybodaeth i fodloni</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>aelodau o fewn y CBC. Cytunodd JM i drafod gyda'r grŵp Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol</p> <p>Ailadroddodd IG y byddai angen i'r adrodd i'r CBC fod yn gadarn a dywedodd fod y CBC yn bwriadu cymeradwyo a chefnogi'r dogfennau. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i egluro'r rhesymeg dros aelodaeth ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Bydd adroddiad yn cynnwys aelodaeth aelodau lleyg o'r is-bwyllgorau ac amserlenni cyfarfodydd yn cael eu dwyn yn ôl i gyfarfod y CBC ar 12 Tachwedd 2024.</p> <p>Dywedodd JM nad oedd strwythur diwygiedig yr is-bwyllgor bellach yn cynnwys is-bwyllgorau etifeddol o'r PGIAC, yn benodol y panel Cais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) Cymru Gyfan, Grŵp Rheoli PGIAC a Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN). Fel rhan o'r gwaith pontio roedd model llywodraethu gweithredol newydd yn cael ei ystyried gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu i gymeradwyo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau'r CBC i'w gyflwyno i gyfarfodydd Bwrdd Byrddau Iechyd ym mis Medi 2024 i'w cymeradwyo, • cylch gorchwyl ar gyfer Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid y CBC i'w gyflwyno i gyfarfodydd Bwrdd Byrddau Iechyd ym mis Medi 2024 i'w cymeradwyo, • Memorandwm Cytundeb a'r Cytundeb Lletya i'w cyflwyno i gyfarfodydd Bwrdd Byrddau Iechyd ym mis Medi 2024 i'w cymeradwyo; a • pharhau â'r trefniadau adrodd ar bontio ar gyfer y Panel IPFR, WKN a'r Grŵp Rheoli Gwasanaethau Arbenigol hyd nes y sefydlir Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (CCLG) newydd. <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg BIPCTM ar gyfer cyrff sy'n cael eu cynnal wedi'u cynnwys o fewn Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Risg BIPCTM sy'n cael ei adolygu, a bydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod bwrdd BIPCTM ar 26 Medi 2024 i'w gymeradwyo.
CBC24/073	<p>3.2 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol Derbyniwyd yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad.

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
CBC24/074	<p>3.3 Adroddiadau cryno gan y Cyd-is-bwyllgorau</p> <p>Derbyniwyd adroddiadau cryno gan y Cyd-is-bwyllgorau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Sicrwydd y Pwyllgor Archwilio a Risg <p>Dywedodd IG y byddai'n cwrdd â Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg BIPCTM yn ystod y pythefnos nesaf i drafod trefniadau ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion <p>Dywedodd SE fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion (QPSC) yn monitro risgiau ar ran y CBC. Dywedodd Hayley Thomas (HT) ei bod yn ddefnyddiol gweld yr adroddiadau ar wasanaethau yn cael eu huwchgyfeirio a gofynnodd a fyddai'r aelodau'n gallu gweld sut mae'r broses a'r asesiad a wnaed i bennu cynnydd yn digwydd ar draws gwasanaethau i ddeall y sefyllfa gyffredinol.</p> <p>Dywedodd CB fod y fframwaith uwchgyfeirio yn rhan o'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu (CAF) a bod y QPSC wedi gwneud gwaith i helpu i gryfhau'r trefniadau adrodd ar uwchgyfeirio. Dywedodd CB fod y gwaith hwn wedi'i ddatblygu o brofiadau statws uwchgyfeirio blaenorol Tŷ Lliardiard, a bod yr adrodd wedi'i wella i ddangos y newidiadau mewn statws uwchgyfeirio dros amser.</p> <p>Nododd IG fod angen sicrhau adrodd priodol gan yr is-bwyllgorau i'r CBC ac yna adrodd hyn yn ôl i bwyllgorau'r Byrddau Iechyd.</p> <p>Holodd PK pa wybodaeth oedd yn cael ei hadrodd yn ôl i Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Byrddau Iechyd Dywedodd CB fod adroddiad cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael ei ddisbarthu i bob Bwrdd Iechyd yn dilyn pob cyfarfod o'r Cydbwyllgor i'w gynnwys ar agendâu Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion eu Byrddau Iechyd eu hunain er gwybodaeth. Dywedodd CB fod adroddiadau sicrhau ansawdd wedi bod yn destun asesiad archwilio mewnol yn 2023, ac wedi derbyn sgôr sicrwydd sylweddol ar gyfer y broses ar gyfer rhannu gwybodaeth gan y QPSC i Fyrddau Iechyd. Dywedodd CB hefyd ei fod yn bwysig i aelodau nodi mai dim ond uwchgyfeirio ar lefel 3 ac uwch a adroddwyd yn llawn yn yr adroddiad uwchgyfeirio a bod pob lefel o uwchgyfeirio yn cael eu cyfeirio yn yr adroddiadau comisiynu gwasanaethau unigol a gyflwynwyd i'r QPSC.</p> <p>Atgoffodd PK aelodau na fyddai cynrychiolwyr Aelodai Annibynnol mwyach yn y QSO newydd. Dywedodd IG y byddai Prif Weithredwyr yn bresennol ond cytunodd y byddai angen ystyried y mecanweithiau</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>adrodd ymhellach. Cadarnhaodd AH y byddai papurau'r QSO yn cael eu rhannu gyda Byrddau Iechyd.</p> <p>CAM GWEITHREDU: JM i drafod gyda'r Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol a CB i drafod gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio ar adrodd am QSO. Diweddariad i'w gynnwys yn yr adroddiad i'r CBC ar 12 Tachwedd 2024.</p> <p>Gofynnodd PK beth oedd y tu ôl i'r fframwaith uwchgyfeirio o ran perfformiad a'r fframwaith canlyniadau ac ansawdd. Cadarnhaodd CB fod yna fframwaith sicrwydd comisiynu.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu a'r offer ategol i'w dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau Briffio'r Grŵp Rheoli Derbyniwyd a nodwyd papurau briffio'r Grŵp Rheoli, • Panel Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) Tynnodd CB sylw at bryderon gan fod y ddau gyfarfod panel IPFR diwethaf wedi'u canslo oherwydd diffyg cworwm. Dywedodd CB y bu heriau sylweddol i'r tîm sy'n mynd ar drywydd Byrddau Iechyd i gadarnhau presenoldeb. <p>Mynegodd NR bryder bod cyfarfodydd wedi'u canslo oherwydd diffyg cworwm a gofynnodd a allai'r CBC annog rhywbeth i gael ei wneud yn ffurfiol. Mynegodd IG bryder hefyd nad oedd cworwm wedi bod yn y cyfarfodydd hyn.</p> <p>CAM GWEITHREDU: CB i hysbysu aelodau'r CBC am bresenoldeb cynrychiolwyr y Byrddau Iechyd yng nghyfarfodydd y panel IPFR Cymru Gyfan ac amlinellu meysydd o bryder a sicrhau bod Byrddau Iechyd yn ymwybodol fel y gallent gymryd camau priodol.</p> <p>Dywedodd HT y byddai'n ddefnyddiol deall rhwystrau a llwyth gwaith y panel, a gofynnodd sut y gellid gwneud presenoldeb yn haws i Fyrddau Iechyd. Awgrymodd AH fod angen hyblygrwydd. Dywedodd James Calvert (JC) ei bod yn anodd i Fwrdd Iechyd ryddhau clinigydd am hanner diwrnod oherwydd prinder staff. Fel Bwrdd Iechyd byddent yn enwebu carfan o glinigwyr a byddent yn cael cyfarfodydd i'w mynychu i gylchdroi'r llwyth gwaith.</p> <p>Gofynnodd Richard Evans (RE) a oedd asesiad wedi'i wneud o'r ymrwymiad amser ar gyfer y cyfarfodydd hyn, gan ei fod yn ymwybodol eu bod yn cael eu cynnal bob pythefnos. Adroddodd CB</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>y byddai'n anodd nodi ymrwymiad amser ar hyn o bryd gan fod y cyfarfodydd yn hirach ar hyn o bryd oherwydd yr heriau o ran cworwm ac ôl-groniad achosion. Tynnodd CB sylw at y ffaith fod deuddeg o achosion i'w hystyried ar hyn o bryd ar gyfer y cyfarfod IPFR nesaf. Tynnodd CB sylw at y ffaith fod nifer yr achosion a gyflwynwyd hefyd wedi cynyddu.</p> <p>Daeth IG i'r casgliad bod angen i Fyrddau Iechyd sicrhau cynrychiolaeth ac anogodd y Byrddau Iechyd i gadarnhau eu haelodau cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi problemau cworwm. Dywedodd JC ei fod wedi cael adborth cadarnhaol yn dilyn presenoldeb BIPBC yn y cyfarfodydd, a chadarnhaodd fod y pryderon a godwyd yn ymwneud â'r gofynion amser ac nid ansawdd y cyfarfodydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN) <p>Dywedodd Nicola Johnson (NJ) fod ehangu'r Uned Ddialysis yn Ne-orllewin Cymru yn dal i fynd rhagddo a dywedodd y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gleifion. Dywedodd AH ei bod wedi cael sesiwn yn ddiweddar gydag Arweinydd Clinigol o'r Rhwydwaith, a chadarnhaodd eu bod wedi cwblhau gwaith rhagorol ac astudiaeth achos ar wella gwerth a llwybrau cleifion.</p> <p>Dywedodd IG ei fod yn cyfarfod â Chadeirydd yr WKN ar 10 Medi 2024, er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn ymwybodol o'r gwaith ar y rhwydwaith ac awgrymodd y gellid ymdrin â hyn mewn sesiwn ddatblygu i'r aelodau yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiadau cryno.
CBC24/075	<p>3.4 Cofrestr Risg y Cydbwyllgor Comisiynu Derbyniwyd adroddiad cofrestr risg y CBC.</p> <p>Cyflwynodd JM yr adroddiad a nododd yr aelodau fod y gofrestr risg gyfunol wedi'i chategoreiddio fel cofrestr risg trosiannol tra bod gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risg BIPCTM yn llawn ar gyfer y CBC (yn unol â'r cytundeb lletya) a hyd nes bod y CBC wedi cael cyfle i ystyried ei dderbynioldeb risg fel rhan o'i raglen ddatblygu.</p> <p>Nododd yr Aelodau y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • roedd 27 o risgiau gyda sgôr o 15 ac uwch ar y Gofrestr Risg; • 24 o risgiau comisiynu a 3 risg sefydliadol, • ychwanegwyd 1 risg newydd, sef 76 – gallai mantoli'r gyllideb mewn perthynas â Chydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>(CBCGC) olygu gorwario yn erbyn y Cynllun Comisiynu Integredig (ICP) 24/25 y cytunwyd arno,</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r 2 risg â'r sgôr uchaf (coch 25) yn parhau i fod yn 71 a 74 ac mae'r rhain yn ymwneud â pherfformiad a chapasiti ambiwlansys. • Roedd cynllun ymateb i risg yn cael ei archwilio ar hyn o bryd gyda'r Uwch Dîm Arwain (UDA). <p>Dywedodd JM y bydd y risgiau'n cael eu hadolygu ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol y CBC ac y bydd gweithdy rheoli risg yn cael ei gynnal gydag aelodau'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ar 25 Medi a sesiwn datblygu'r CBC gydag aelodau o'r CBC i drafod derbynioldeb risg a goddefgarwch risg ar 15 Hydref 2024.</p> <p>Roedd IG yn cydnabod yr angen am waith ychwanegol fel pwyllgor ar y dull o ymdrin â risg, derbynioldeb risg, sgorio risg a'r angen i fynegi ac egluro'r hyn y gallai'r CBC ei reoli ar y cyd. Tynnodd IG sylw at y ddwy risg drychinebus a gofynnodd i RW roi sicrwydd pellach ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y CBC a/neu mewn partneriaeth â chydweithwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) i liniaru'r ddwy risg â'r sgôr uchaf.</p> <p>Mewn perthynas â risg 71, dywedodd RW eu bod wedi gweld gwelliannau mewn rhai meysydd o ran argaeledd ambiwlansys a'i fod yn adolygu sut y gallai hyn drosi'n berfformiad gwell, yn enwedig yn erbyn y targedau amser ymateb. Dywedodd RW fod cyfleoedd i ddatblygu'r model clinigol yn cael eu harchwilio yn dilyn y trafodaethau diweddar yng nghyfarfodydd y CBC a diwrnod datblygu'r CBC ym mis Awst a ddylai helpu i leihau amllder y niwed.</p> <p>Nododd RW fod angen sgysiau ehangach mewn perthynas â Risg 74 a chapasiti ambiwlansys a'r awydd am fuddsoddiad a chyfleoedd eraill i ehangu a darparu capasiti gwasanaethau ambiwlans. Cynhaliwyd adroddiad galw a chapasiti yn 2019 a oedd wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol yn y gwasanaeth ambiwlans i gyflawni yn erbyn yr argymhellion. Roedd adroddiad galw a chapasiti dilynol yn cael ei ystyried ac roedd hyn yn cynnwys ystod o senarios ac opsiynau y gallai rhai ohonynt fod y tu allan i reolaeth y CBC, ond fyddai o fewn rheolaeth Byrddau Iechyd, megis rheoli trosglwyddiadau a galw.</p> <p>Dywedodd IG y byddai archwilio'r risgiau hyn yn gymhleth ond tynnodd sylw at bwysigrwydd ceisio sicrwydd mewn perthynas â'r risgiau hyn fel pwyllgor.</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>Cadarnhaodd AH y bu trafodaeth ddefnyddiol yn sesiwn friffio'r UDA a'r Aelodau Lleyg ar 16 Medi 2024. Dywedodd AH fod angen edrych ar hyn mewn dwy ffordd wahanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cyfrifoldeb am gomisiynu ambiwlansys ac a ydym yn comisiynu capasiti digonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth? A oes gennym ddigon o ddarpariaeth i ganiatáu rhywfaint o oedi wrth drosglwyddo a pha gyfran o'r oedi sy'n rhesymol o fewn yr amgylchedd dan bwysau presennol? Teimlai AH fod sicrwydd mewn perthynas â'r mater cyntaf hwn; a • Bod yr ail fater yn ymwneud â phwysau system ar draws y GIG yng Nghymru a'r oedi o ganlyniad i ambiwlansys yn ymateb i alwadau categori coch ac oedi wrth drosglwyddo cleifion i ofal aciwt. Rydym yn gwybod bod hwn yn ffocws ar gyfer sylw gan bob Bwrdd Iechyd, ac roedd LIC yn rhannu'r cynnydd yr oedd rhai Byrddau Iechyd yn ei wneud. <p>Gofynnodd AH i Fyrddau Iechyd rannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda'i gilydd. Dywedodd AH fod cleifion yn cael eu niweidio o ganlyniad i oedi gan ambiwlansys ac nad oedd y rhain o reidrwydd yn alwadau coch ond yn gleifion oedd yn aros am gyfnodau hir am ambiwlansys ac yna'n profi oedi pellach mewn ysbytai.</p> <p>Cytunodd IG fod yna ddehongliadau gwahanol a bod hwn yn faes cymhleth ond roedd yn bwysig i'r CBC fyfyrion ar y materion hyn.</p> <p>Dywedodd Linda Prosser (LP) nad oedd cydberthynas uniongyrchol rhwng oedi wrth drosglwyddo a pherfformiad gwell. Awgrymodd LP fod angen archwilio'r risgiau ymhellach i fynd i'r afael â phroblemau.</p> <p>Dywedodd PW fod angen bod yn realistig a chytbwys, ond yn dryloyw ynghylch y risg hefyd gan eu bod yn ymwneud â diogelwch cleifion.</p> <p>Cytunodd RW a chymerodd sylwadau'r aelodau i ystyriaeth, a chytunodd y byddai'r risgiau'n elwa o adolygiad o'i safbwynt fel comisiynydd, yn sgil sefydlu'r CBC a thriongli hyn ar draws cofrestrau risg Byrddau Iechyd a darparwyr.</p> <p>Ychwanegodd IG bwysigrwydd nodi'r gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn wrth ganolbwyntio ar ein cyfrifoldeb cyfunol fel CBC.</p> <p>Tynnodd NR sylw at y risg bosibl a hyder yn y GIG yn cael ei gollu gan y cyhoedd am fod methiannau ambiwlansys yn cael eu hadrodd yn y wasg, ac efallai na fydd pobl yn gofyn am help pan fydd ei angen</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>arnynt. Dywedodd NR hefyd fod y CBC yn archwilio ffyrdd o newid y system i sicrhau gwelliannau.</p> <p>Cyflwynodd Jason Killens (JK) rai myfyrdodau a dywedodd fod cydberthynas uniongyrchol rhwng argaeledd ambiwlansys a pherfformiad amser ymateb. O ran oedi wrth drosglwyddo, roedd y rhestr ddyletswyddau bresennol yn seiliedig ar ddim mwy na 6,000 awr o oriau'n cael eu colli bob mis ond ar hyn o bryd roedd 20,000-25,000 o oriau'n cael eu colli bob mis. Pe bai'r oriau a gollwyd yn fwy na 6,000, roedd hyn yn golygu nad oedd digon o gapasiti i ymateb i weithgarwch. Er bod WAST yn gweld gostyngiadau mewn oedi wrth drosglwyddo, yn y tymor byr roedd hyn wedi arwain at angen heb ei ddiwallu yn cael ei wasanaethu yn gyntaf.</p> <p>Adroddodd IG fod angen i'r CBC gymryd cam yn ôl ac edrych ar y dull o ymdrin â risg a sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr i sicrhau gwelliannau i boblogaeth Cymru.</p> <p>Cadarnhaodd AH sut yr ydym yn rheoli risg a bod y gwahaniaeth rhwng risgiau a phroblemau'n cael ei ystyried yn fewnol o fewn tîm y CBC fel rhan o'r datblygiad, ac yn benodol bydd RW yn edrych ar sut y caiff y risg hon ei mynegi.</p> <p>Cynghorodd AH y byddai'r sesiwn ddatblygu nesaf gydag aelodau'r CBC yn cynnwys trafodaeth ynghylch derbynioldeb risg a sut y gallem fod am adlewyrchu risgiau'r comisiynydd.</p> <p>Gofynnodd AH hefyd am gynnwys ymchwiliad dwfn i'r risgiau ambiwlans hyn ar yr agenda QPSC nesaf gyda ffocws penodol ar brofiad y claf, niwed i gleifion ac ansawdd y gwasanaeth.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Y QPSC i wneud ymchwiliad dwfn i'r risgiau ambiwlans 25 coch sy'n ymwneud â pherfformiad a chapasiti ambiwlansys.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad, • Nodi cofrestr risg y CBC ar 31 Gorffennaf 2024, • Nodi'r gwaith parhaus sydd wedi'i wneud hyd yma i gynhyrchu cofrestr risg gyfunol drosiannol, • Nodi'r adborth a dderbyniwyd ar y gofrestr risg gyfunol; a • Nodi'r gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu'n llawn Strategaeth Rheoli Risg CTM ar gyfer y CBC a'r camau nesaf sydd eu hangen i'w gweithredu.

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
CBC24/076	<p>3.5 Adolygiad Diwylliant Annibynnol y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad ar Adolygiad Diwylliant Annibynnol y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth (NMC).</p> <p>Rhoddodd CB ddiweddariad i'r aelodau ar Adolygiad Diwylliant yr NMC wedi i bryderon difrifol gael eu codi am ei ddiwylliant sefydliadol. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ar wefan yr NMC ar 9 Gorffennaf 2024.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad.
CBC24/077	<p>4.1 Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 5 a Chynllun Adfer</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad perfformiad ariannol yn rhoi sefyllfa ariannol mis 5.</p> <p>Rhannodd Stacey Taylor (ST) gyflwyniad gyda'r aelodau mewn perthynas â'r cynllun adfer ariannol a'r sefyllfa adennill costau. Tynnodd ST sylw at y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud a dywedodd fod y sefyllfa ariannol ar hyn o bryd yn dangos gorwariant sylweddol.</p> <p>Nododd yr Aelodau y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crynodeb o'r cynlluniau a gymeradwywyd ar gyfer y sefydliadau rhagflaenol ar gyfer 2024/2025 ac yna crynodeb o sefyllfa ariannol Chwarter 1, • diweddariad ar sefyllfa Mis 5, sef gorwariant o £3.746 miliwn yn erbyn cynllun ariannol y Cynllun Comisiynu Integredig (ICP) hyd yma, gyda gorwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £4.515 miliwn, • Roedd y llwybr presennol yn rhagweld gorwariant o oddeutu £8.4 miliwn, • Byddai angen nifer o fesurau lliniaru i ddod â hyn yn ôl i'r sefyllfa a ragwelwyd, • y risgiau a methiant i gyflawni'r targed arbedion o tua £4.5 miliwn a oedd yn fater pwysig; a • diweddariad mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ambiwlans a 111. <p>Crynowyd y Llwybr at Adennill Costau a cherrig milltir allweddol, a rhoddodd ST ddiweddariad ar y camau gweithredu a gyflawnwyd a'r mesurau lliniaru twf yn ystod y flwyddyn a daeth i ben drwy</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>amlinellu'r egwyddorion pellach a'r dewisiadau pellach i'w hystyried yn ystod Ch3 a Ch4. Mae'r camau nesaf hefyd wedi'u hamlinellu.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod hwn yn gyflwyniad defnyddiol ac yn cydnabod bod heriau mwy sylweddol i ddod â hyn yn ôl i sefyllfa adennill costau. Nododd PW y targed arbedion o £10 miliwn, a holodd pa mor hyderus oedd y CBC ar gyflawni'r targed arbedion o £4.5m (gwyrdd ac ambr). Dywedodd ST ei bod yn hyderus y gellid cyflawni'r arbedion. Fodd bynnag, roedd hefyd angen rheoli twf a sicrhau eglurder ar hyn.</p> <p>Nododd PW y risg bosibl gydag IPFR. Cadarnhaodd ST fod gweithgaredd eleni ar gyfer clefydau prin a chyffuriau cost uchel wedi tyfu'n esbonyddol. Gofynnodd PW a oedd potensial i chwilio am arbedion rheoli meddyginiaethau i helpu gydag unrhyw orwariant, a holodd a fyddai'r arbedion hyn yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru. Eglurodd ST fod LIC yn ariannu rhai o'r cyffuriau a phe bai'r arbedion yn ymwneud â'r rhain byddent yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru. Esboniodd ST fod yr arbedion pellach posibl yn ymwneud â'r perthnasoedd contractio gyda'n darparwyr.</p> <p>Awgrymodd IG y dylid parhau â thrafodaeth fanylach yn ystod sesiwn y pwyllgor.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r sefyllfa ariannol diwedd mis.
CBC24/078	<p>4.2 Adroddiad Perfformiad CBCGC – Mehefin 2024</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg integredig o berfformiad gwasanaethau a gomisiynwyd gan CBC hyd at ddiwedd Mehefin 2024.</p> <p>Esboniodd NJ fod ST eisoes wedi crybwyll rhai o'r canlyniadau ariannol wrth gyflwyno'r diweddariad ar y sefyllfa ariannol. I grynhoi, cyfeiriodd NJ at y cynnydd parhaus yn y rhestr aros ar gyfer Mewnblaniad Falf Aorta drwy Gathetr (TAVI), yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roeddent yn torri targed amser aros 52 wythnos y Gweinidog, ond roeddent o fewn y cyfnod aros o 104 wythnos. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod gyda darparwyr De Cymru i sicrhau'r defnydd gorau o'n capasiti i reoli'r rhestrau aros. Esboniodd NJ fod y ddau ddarparwr yn cydweithio.</p> <p>Nododd yr Aelodau y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llawfeddygaeth Blastig – Gofal Dewisol: Trafodwyd opsiynau yn flaenorol ac ymgwymerwyd â diwydrwydd dyladwy

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>trwy'r Grŵp Rheoli gwasanaethau arbenigol ac roedd opsiwn 2 bellach yn cael ei weithredu. Nododd yr Aelodau yr ailgyflwyno ar amseroedd aros Gofal Dewisol i Lywodraeth Cymru. Mae'r CBC wedi cysylltu â BIPBA ynghylch unrhyw gyfleoedd, yn enwedig yn ymwneud â phlastigau, er mwyn symud ymhellach at y targed, yn enwedig o ran y canlyniadau ariannol,</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llawfeddygaeth Baediatrig: Cafodd y gwasanaeth ei lacio ym mis Mehefin 2024 ac roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF) yn cynnal y targed amser aros o 52 wythnos ar gyfer holl blant De Cymru, • Sefydliad Ffrwythlondeb Cymru (WFI): roedd y CBC yn parhau i weithio gyda BIPBA fel y darparwr ac roedd hyder wedi cynyddu, felly mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi cael ei lacio o lefel 4 i Lefel 3, • Gwasanaeth Llawdriniaeth Gardiaidd Paediatrig: Mae'r gwasanaeth a gomisiynwyd gan y CBC ym Mryste wedi'i lacio, • Gofal dwys paediatrig a Gwasanaethau Newyddenedigol: O ran y 2 wasanaeth sydd ar hyn o bryd yn lefel uwchgyfeirio 3 yn BIPCaF, esboniodd NJ y byddai cyfarfod ailosod gyda BIPCaF yn cael ei gynnal ar 18 Medi 2024, gan dynnu sylw at y ffaith bod y CBC yn defnyddio rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd o stori'r claf a adroddwyd yn gynharach, • Fframwaith Cydweithredol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion a CAMHS: Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda darparwyr yng Nghymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd o ran dychwelyd adref. Mae'r problemau diogelwch gyda'r drysau yn uned Gogledd Cymru bellach wedi'u datrys. <p>Dywedodd NJ fod adroddiad pellach yn amlinellu'r newidiadau i'r model clinigol ar gyfer Ambiwlansys a'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth 111, ac wedi'i drosglwyddo i RW.</p> <p>Roedd RW yn cydnabod bod trafodaeth eisoes wedi'i chynnal ar berfformiad ambiwlansys a thynnodd sylw at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y bu gwell cydymffurfiaeth o ran yr ymateb i gwynion o fewn 30 diwrnod, ac yn yr un modd bu gwelliant o ran cydymffurfio yn erbyn y dangosyddion clinigol; a • derbyniwyd mesurau drafft ar gyfer y gwasanaeth 111. Roedd angen rhagor o waith gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DCHW) i fireinio mesurau, a bydd hyn yn cael ei ddwyn yn ôl i Grŵp Rheoli EASC ym mis Hydref 2024 cyn i'r CBAC ei gymeradwyo ymhellach ym mis Tachwedd 2024.

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>Dywedodd IG y dylai'r dull a'r diwylliant fod yn ymwneud â gwella ansawdd mewn partneriaeth â darparwyr, a sut y caiff hyn ei gyflawni.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r Adroddiad Perfformiad ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir gan y CBC.
CBC24/079	<p>4.3 Argymhelliad Adolygiad y Gwasanaeth Casglu a Throsoglwyddo Meddygol Brys (GCTMB) Diweddariad ar Argymhelliad 4</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am argymhelliad y Gwasanaeth Casglu a Throsoglwyddo Meddygol Brys (GCTMB) i ddatblygu ymateb gofal critigol gwell wedi'i deilwra ar y ffyrdd ar gyfer ardaloedd gwledig ac anghysbell ac argymhelliad 4.</p> <p>Tynnodd Stephen Harrhy (SH) sylw at y tri maes eang canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygiadau Barnwrol Roedd hyn yn cael ei drin ar y cyd gyda Byrddau Iechyd. Nid oedd argymhelliad 1 i 3 yn yr adolygiad gwreiddiol yn amodol ar argymhelliad 4. Mae'r seiliau cryno ar gyfer cystadlu wedi'u cyflwyno a bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu maes o law, • Argymhelliad 4 Esboniodd SH y byddant yn chwilio am enw gwahanol gan na allant barhau i gyfeirio at hwn fel Argymhelliad 4. Ar y cyfan, roedd cynnydd da yn cael ei wneud. Diolchodd SH i'r holl bartneriaid a fu'n rhan o ddatblygu'r gwaith hwn gan fod hon yn ymdrech gydweithredol. Roedd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn datblygu'r dull o ymdrin â Chyfathrebu ac Ymgysylltu, gan weithio'n agos gyda Llais. Roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) drafft ar waith ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y galw a'r modelu. Trefnwyd cyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen pellach ar gyfer 26 Medi 2024 a bydd y drafft cyntaf yn cael ei gyflwyno. Diolchwyd eto i WAST ac EMRTS a oedd yn parhau i weithio'n agos gyda'r CBC o ran datblygu'r modd clinigol i wella'r effaith ar ganlyniadau cleifion. Hefyd, roedd angen eglurder ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i werthuso. Nododd yr Aelodau fod hwn yn ddatblygiad ac yn welliant i'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol. Tynnwyd sylw at y nodau allweddol a phryd y byddant yn cael eu hadrodd yn ôl i'r CBC er mwyn sicrhau aelodau y bydd hyn ar waith o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, • Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>Pwysleisiodd SH bwysigrwydd ymgysylltu ystyrlon, ac roedd y CBC yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid Cyfathrebu ac Ymgysylltu o fewn Byrddau Iechyd a gyda Llais. Byddai angen i'r broses hon gael ei harwain gan y Byrddau Iechyd gyda'r tîm comisiynu yn cefnogi ac yn cydlynu ymatebion.</p> <p>Roedd cynllun ymgysylltu yn cael ei gwblhau a byddai'n cael ei gyflwyno yn ôl i'r CBC, ond roedd angen egluro hyd yr amser ymgysylltu. I ddechrau, credwyd y byddai cyfnod ymgysylltu o 4 wythnos yn ddigon, gan nad oedd hwn yn newid cymedrol neu sylweddol i'r gwasanaeth a fyddai fel arfer yn gofyn am gyfnod ymgynghori 8-12 wythnos. Mae Llais wedi argymhell cyfnod hirach yn gryf. Rhoddodd SH sicrwydd i'r aelodau eu bod yn cymryd cyngor Llais i ystyriaeth a bod yr argymhelliad yn yr adroddiad ar gyfer proses ymgysylltu 6 wythnos, a fyddai'n cynnwys cyfuniad o grwpiau ffocws ac ymgysylltu wyneb yn wyneb trwy sesiynau galw heibio, yn ogystal â sicrhau bod deunyddiau ar gael i'r cyhoedd.</p> <p>Dywedodd SH fod Llais wedi rhoi adborth ac awgrymiadau ar y cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r broses ymgysylltu, a chroesawodd hefyd adborth pellach ar hyn. Esboniodd SH y byddai'r canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda Llais, Byrddau Iechyd ac yn ôl trwy'r CBC. Bydd Llais yn rhoi ymateb ysgrifenedig. Byddai adolygiad canol cyfnod hefyd yn ystod y broses ymgysylltu chwe wythnos. Mae'r risgiau wedi'u hamlinellu a byddant yn cael eu lliniaru ymhellach yn amodol ar dderbyn cefnogaeth y CBC i'r argymhellion. Gofynnodd SH i gydweithwyr gadarnhau a oeddent yn cefnogi'r dull hwn.</p> <p>Rhoddwyd diolch gan SE a dywedodd ei bod wrth ei bodd bod y sylwadau gan Llais o ran amserlenni o 6 wythnos yn cael eu cynnig gan fod hyn yn ymddangos yn rhesymol, a oedd, ym marn SE, yn rhoi digon o amser i ymgysylltu.</p> <p>Holodd LP a allai'r cwestiynau a gynigiwyd gael eu haralleirio i ganiatáu mwy o naratif.</p> <p>Eglurodd Angela Mutlow (AC) fod y ddau gwestiwn a awgrymwyd yn ychwanegol at y cwestiynau safonol. Roedd AC yn falch o weld sesiynau galw heibio yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â'r grwpiau ffocws er mwyn rhoi cymaint o gyfle â phosibl i bobl ymgysylltu. Eglurodd AM mai barn Llais oedd bod 4 wythnos yn rhy fyr, ac efallai fod 6 wythnos hefyd yn rhy fyr, gan ei bod yn bwysig caniatáu i bawb gael llais, gan awgrymu y byddai o leiaf 8 wythnos yn ddigon o ystyried y pryderon a dderbyniwyd drwy gydol y broses hon. Roedd</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>AC yn falch bod adolygiad canol cyfnod wedi'i gynnwys. Nododd AM hefyd nad oedd y llinell amser ar hyn o bryd yn rhoi amser i Llais adolygu'r canfyddiadau a rhoi eu hadborth ysgrifenedig.</p> <p>Cynghorodd SH ei bod yn bwysig cael y cydbwysedd cywir a sicrhau bod ymgysylltiad ystyrlon. O ran a fydd ymgysylltiad 6 neu 8 wythnos, y rheswm dros argymell 6 wythnos oedd bod hyn yn teimlo'n gyraeddadwy, yn amodol ar yr adolygiad canol cyfnod sy'n gweithredu fel adeg lle gellir adolygu cynnydd. Esboniodd SH fod y llinell amser a ddarparwyd yn lefel uchel ond mae ganddynt linell amser fanylach y gellir ei rhannu ag AM i ddangos bod digon o amser wedi'i gynnwys er mwyn i Llais ymateb.</p> <p>CAM GWEITHREDU: SH i rannu amserlen fanwl gyda Llais.</p> <p>Adroddodd SH fod rhywfaint o hyblygrwydd yn y llinell amser os oedd angen ymestyn yr amserlen ymgysylltu i 8 wythnos.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Yr amserlen o chwe wythnos ar gyfer ymgysylltu i'w monitro a'i hadolygu ar y cyd â Llais yng nghanol y cyfnod hwn, ac yn ystod yr adolygiad hwn, bydd y cwestiwn a fydd angen ymestyn y cyfnod ymgysylltu o 6-8 wythnos yn cael ei benderfynu</p> <p>Atgoffodd IG yr aelodau fod hyn yn ychwanegiad i'r gwasanaeth presennol. Gan fod hyn yn welliant cytunodd NR ei bod yn bwysig peidio ag oedi. Roedd AC yn cydnabod sylwadau'r aelodau ond nododd ei bod yn bwysig bod pawb yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y newidiadau oedd yn cael eu cynnig, a chadarnhaodd ei bod yn hapus i drafod ymhellach yn ystod yr adolygiad canol cyfnod. Ychwanegodd SH eu bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Llais a'u bod yn cael diweddariadau wythnosol ond byddai'r canol cyfnod yn adolygiad mwy ffurfiol.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi cynnwys yr adroddiad a bod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y trywydd iawn er bod cynrychiolaeth y byrddau iechyd yn isel, • Nodi'r llwybr critigol a'r nodau allweddol, • Nodi'r dull cyfathrebu ac ymgysylltu a'r sefyllfa gyda Llais; a • Chymeradwyo: <ul style="list-style-type: none"> - Mai chwe wythnos yw'r amserlen ar gyfer ymgysylltu, ac i gynnwys sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb, - Bydd adolygiad canol cyfnod yn cael ei gynnal ar y cyd â Llais ac yn ystod yr adolygiad hwn bydd y cwestiwn a fydd

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>angen ymestyn y cyfnod ymgysylltu o 6-8 wythnos yn cael ei benderfynu</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bod y ddau gwestiwn gan Llais yn cael eu cynnwys yn y deunyddiau ymgysylltu, - Bod canfyddiadau'r ymgysylltu yn cael eu rhannu gyda Llais ac y bydd Llais yn rhoi ymateb ysgrifenedig a fydd yn cynnwys adborth o bob rhanbarth; a - Bydd diweddariad canol cyfnod ar gynnydd yr ymgysylltu yn cael ei rannu â phob bwrdd iechyd a Llais.
CBC24/080	<p>4.4 Datblygiadau'r Gwasanaeth Ambiwllans</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad yn cyflwyno diweddariad ar Ddatblygiadau'r Gwasanaeth Ambiwllans.</p> <p>Eglurodd RW i'r aelodau fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno fel diweddariad cyffredinol ar y trywydd sy'n cael ei ddilyn, ond nad oedd cais am gefnogaeth ffurfiol na chymeradwyaeth ar hyn o bryd.</p> <p>Datblygiad y Model Ymateb Clinigol</p> <p>Derbyniwyd cyflwyniad yn ystod sesiwn ddatblygu mis Awst gyda chynnig ynghylch cyflawni gwell darpariaethau gwasanaeth ambiwlans drwy wella asesiadau clinigol ar adeg lawer cynharach. Y cam cyntaf oedd cyflwyno proses sgrinio gyflym lle gall clinigwr asesu'r rhan fwyaf o alwadau 999 yn gyflym i benderfynu a allai mwy o asesiadau clinigol o bell gael ei wneud, ac os yw'n briodol, efallai na fyddai hyn yn cynnwys anfon ambiwlans. Mae'r cynnig yn disgrifio cyflwyno gwasanaeth gofal integredig o bell a fyddai'n golygu dod â'r ddesgiau clinigol 999 a 111 bresennol ynghyd. Dywedodd RW y byddai angen llawer o waith i weld sut y gallai hyn weithredu, ond dywedodd ei fod yn chwilio am arweiniad cyffredinol ynghylch a oedd pobl yn gyfforddus â'r dull hwn a awgrymwyd.</p> <p>Esboniodd RW sut mae'r model datblygedig yn cyflwyno cyfleoedd ehangach i lywio cleifion o amgylch y system a sut y gall Byrddau Iechyd gael mwy o ddylanwad uniongyrchol ar ble mae cleifion yn cael eu cludo i gael y gofal sydd ei angen arnynt. Byddai'n cael ei weithredu fesul cam dros gyfnod hir o amser ac nid oedd yn rhywbeth a allai ddigwydd dros nos. O ganlyniad i hyn, byddai angen i aelodau ystyried y ddau - CBC, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG mewn perthynas â mesurau priodol o'r model hwn a sut mae'n adlewyrchu'n gywir sut mae claf yn cael profiad o'r system. Nododd RW y byddai nifer o drafodaethau'n parhau yn ystod y misoedd nesaf a bydd adroddiad manylach ar sut y gallai hyn gael ei weithredu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y CBC yn y dyfodol.</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>CAM GWEITHREDU: Yn dilyn trafodaethau'r CBC gyda LIC, Byrddau Iechyd a WAST, bydd adroddiad manylach ar y Model Ymateb Clinigol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y CBC yn y dyfodol (naill ai Hydref neu Dachwedd 2024).</p> <p>Gofynnodd IG a oedd unrhyw risgiau ynghlwm a sut y byddai'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru. Dywedodd RW na fyddai'n rhagweld y byddai'r ddau ddesg clinigol yn cael eu dwyn ynghyd ar unwaith. Cam cyntaf y darn hwn o waith fyddai cyfuno'r ymateb gan fod y rheini sy'n galw 111 a 999 gyda'r un cyflwr clinigol yn cael eu trin yn wahanol ar hyn o bryd.</p> <p>Dywedodd JK mai'r cynnig oedd gwneud newidiadau mewn tri cham, a'r cam cyntaf oedd rhoi sgrinio clinigol Cyflym ar waith y flwyddyn galendr hon, yn amodol ar sicrhau cymeradwyaethau, a dau gam arall yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn 2025/2026. Cadarnhaodd JK fod yr un feddalwedd cefnogi penderfyniadau clinigol yn cael ei defnyddio o fewn gwasanaethau 999 a 111. Esboniodd JK y byddai effeithlonrwydd gweithredol ac arbedion ariannol wrth ddod â'r ddau wasanaeth clinigol ynghyd, a byddai hefyd yn dod â manteision i gleifion. Waeth beth fo'r pwynt mynediad, byddai cleifion yn cael gwell gwasanaeth o ran y llwybr gofal brys, ac yn cael ymateb wedi'i deilwra'n fwy priodol i'w cyflwr wrth iddynt ofyn am driniaeth.</p> <p>Gofynnodd CS beth oedd ei angen gan aelodau o ran ymgysylltu clinigol i sicrhau dull cydweithredol.</p> <p>Dywedodd RW fod y sgwrs gyda chydweithwyr oedd yn feddygon teulu y tu allan i oriau yn bwysig gan fod y llif presennol o alwadau 111 yn cael ei gyfeirio at feddygon teulu y tu allan i oriau. Soniodd RW hefyd fod nifer sylweddol o gleifion ar hyn o bryd yn mynd drwy'r llwybr 999 y gellid eu cyfeirio'n briodol at feddygon teulu y tu allan i oriau. Fodd bynnag, byddai'n bwysig sicrhau digon o gapasiti yn y lleoliadau cywir i ymateb i alw cleifion.</p> <p>Pwysleisiodd PK bwysigrwydd sut mae'r datblygiad hwn yn cysylltu â'r gwaith o fewn y Byrddau Iechyd ar sgrinio ac ymateb y system a oedd yn gysylltiedig ag ôl troed ein hawdurdodau lleol.</p> <p>Gofynnodd SE am fwy o wybodaeth am ddefnyddio gwirfoddolwyr ar dudalen 3 yr adroddiad.</p> <p>Dywedodd RW fod y gwasanaeth ambiwlans wedi defnyddio gwirfoddolwyr ac wedi gwneud hynny ar gyfer y cleifion mwyaf sâl ers dros 20 mlynedd. Roedd y gwasanaeth Ambiwllans yn datblygu</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>ymateb lles cymunedol arall o wirfoddolwyr hyfforddedig a fyddai'n hapus i gael eu defnyddio i gael eu hanfon at gleifion llai aciwt gyda pheth offer monitro i helpu'r clinigwyr yn yr ystafell reoli i wneud penderfyniadau clinigol mwy gwybodus i'r cleifion hyn.</p> <p>Esboniodd NP nad oedd hi'n sicr ynghylch linellau amser, a holodd pryd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno fel cynnig cadarn a'i ddwyn yn ôl i'r CBC, a gofynnodd am eglurhad ar y mecanwaith cymeradwyo.</p> <p>Cadarnhaodd RW fod cynllun i ddod â phapur llawer mwy manwl yn amlinellu pam, sut a pha olwg fyddai ar y broses cyflwyno fesul cam. Roedd cydweithwyr o fewn Gweithrediaeth y GIG yn awyddus i'r CBC gymeradwyo'r cynnig yn y lle cyntaf.</p> <p>Tynnodd IG sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â chydweithwyr Byrddau Iechyd gan fod angen llawer o waith i helpu i lunio'r cynnig.</p> <p>Roedd RW yn cydnabod yn llawn y gwaith presennol o ran datblygu hybiau llywio / llif sy'n digwydd o fewn Byrddau Iechyd ond mae hyn yn dod â chyfle enfawr i Fyrddau Iechyd ddylanwadu ar ble mae cleifion yn mynd.</p> <p>Nododd Rachel Marsh (RM) fod ymgysylltu parhaus wedi dechrau a bod WAST yn cyfarfod â Phrif Weithredwyr yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn fewnol, roedd cynnig ymgysylltu llawn yn cael ei gwblhau erbyn 20 Medi 2024 a fyddai'n cael ei rannu gyda RW.</p> <p>Cadarnhaodd RM fod y gwirfoddolwyr eisoes wedi'u recriwtio a'u bod yn cael eu cyflwyno ledled Cymru. Roeddent wedi'u hyfforddi ac roedd y rôl yn rhoi llawer o foddhad iddyn nhw.</p> <p>Tynnodd HT sylw at bwysigrwydd cydweithio ar lefel Bwrdd Iechyd. Roedd HT am nodi'r persbectif rhanbarthol a thrawsffiniol a deall sut y gellir dod â hyn ynghyd ledled Cymru gyfan. Cyngorodd HT ei bod yn bwysig nodi bod Bwrdd Gofal Integredig Swydd Amwythig a Telford yn cynnal ymarfer caffael cystadleuol i gaffael canolfannau cydlynu gofal, un pwynt mynediad a chontract meddygon teulu y tu allan i oriau fel un endid. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei godi y tu allan i'r cyfarfod ond roedd HT am sôn am hyn gan ei fod yn gysylltiedig â'r model arfaethedig wrth symud ymlaen.</p> <p>Dywedodd ST pan fydd hyn yn dod yn risg sy'n dechrau dod i'r amlwg y byddai angen trafod y model ariannu a chontractio gyda WAST, fel darparwr. Yn ogystal, amlygwyd y byddai angen ystyried hyn hefyd a'i flaenoriaethu ochr yn ochr â chynlluniau eraill.</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>Cadarnhaodd RW nad oedd yn rhagweld unrhyw oblygiadau ariannol gyda'r model yn y tymor byr i ganolig ond oherwydd derbyniad achos busnes technegydd meddygol brys ar gyfer ail-fandio technegwyr meddygol o fand 4 i fand 5 mewn ymateb i gytundeb ar broffiliau cenedlaethol newydd a allai fod â goblygiadau i'r CBC, a chanlyniadau asesiadau'r gwasanaeth ambiwlans yn erbyn yr argymhellion yn erbyn Ymchwiliad Arena Manceinion. Nododd RW fod hwn yn asesiad mawr iawn ac yn llawer iawn o waith, felly gofynnodd am gymorth gan gydweithwyr i helpu gyda'r gwaith. Roeddent yn trafod hyn ar hyn o bryd gyda'r tîm cynllunio at argyfyngau a gweithrediadau yn LIC.</p> <p>Gwnaeth IG grynhoi gan ddweud bod gwaith pellach i'w wneud ynghylch y model clinigol i sicrhau ymgysylltiad rhagweithiol â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau nad oedd unrhyw beth annisgwyl ynddo pan fyddai'r adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl ar gyfer y sgwrs ehangach. Esboniodd RW y byddai angen blaenoriaethu gwaith ar yr achos busnes technegydd meddygol brys. Nid oedd amserlen benodol ar gyfer ymateb Ymchwiliad Manceinion ond byddai diweddariad yn cael ei ddwyn yn ôl i gyfarfod CBC fis Tachwedd.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi cynnwys yr adroddiad, • Trafod a nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu'r cynnig ar gyfer datblygiad y model ymateb clinigol, • Nodi derbyn Achos Busnes – Proffil Swydd Technegydd Meddygol Brys, a'r gwaith sydd ei angen nawr i graffu ar yr achos hwn; a • Nodi derbyn Adroddiad Argymhelliad Ymchwiliad Arena Manceinion a'r gwaith sydd ei angen nawr i ystyried ac asesu'r adroddiad.
CBC24/081	<p>5.1 Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd, Amcanion Strategol a Chynllun Pontio Cydbwyllgor Comisiynu 2024/2025</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad sy'n amlinellu'r Weledigaeth a'r Genhadaeth, a ategwyd gan gyfres o Amcanion Strategol ar gyfer datblygu Cynllun Pontio i'r CBC sefydlu'r CBC yn llawn a throsglwyddo i fusnes arferol yn y fframwaith llywodraethu newydd.</p> <p>Cyflwynodd Georgina Galletly (GG) yr adroddiad a nododd yr aelodau ymgysylltiad helaeth â staff, Aelodau'r Cydbwyllgor a'r UDA sydd</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>wedi arwain at ddatblygu'r Weledigaeth, Cenhadaeth ac Amcanion Strategol arfaethedig ar gyfer y CBC a gefnogwyd gan yr UDA ac a gyflwynwyd nawr i'w gymeradwyo'n derfynol gan y Cydbwyllgor. Bydd diweddariad pellach ar y cynllun pontio manwl dros y 12 mis nesaf yn cael ei gynnwys yn y dull comisiynu.</p> <p>Ategodd IG y trafodaethau blaenorol a gynhaliwyd yn y sesiwn ddatblygu, a nododd ei fod yn ddiolchgar bod yr adborth wedi'i ymgorffori. Nododd IG fod y staff wedi ymgysylltu'n dda iawn ar hyn. Nododd NR hefyd ei bod yn hapus i weld y cynllun yn adlewyrchu cymaint o drafodaethau a phwyntiau a wnaed. Cafodd GG ei diolch gan MD am y gwaith cadarn.</p> <p>Myfyriodd IG fod hwn yn ddarn sylweddol o waith a diolchodd i bawb a gymerodd ran.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Weledigaeth, Cenhadaeth, Amcanion Strategol a Gwerthoedd arfaethedig yn Atodiad 1. • Nodi'r diweddariad ar Gynllun Pontio Ch1 a'r gwaith pellach fydd yn cael ei wneud i ddatblygu Cynllun Pontio 2024/25.
CBC24/082	<p>5.2 Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y Cydbwyllgor Comisiynu 2025-28</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad ar y cynnydd o ran datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y CBC 2025-28 a'r cyd-destun strategol, y bwriadau comisiynu strategol a'r broses flaenoriaethu.</p> <p>Cyflwynodd Claire Harding (CH) yr adroddiad a nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fod yr amserlen y cytunwyd arni gan y CBC ym mis Mai 2024 ar y trywydd iawn • Bydd y dadansoddiad Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol (PESTLE) diwygiedig yn llywio cyd-destun y cynllun a bydd y broses flaenoriaethu a fydd yn cael ei chynnal eleni yn canolbwyntio ar risg yn dilyn y trafodaethau yn y sesiwn ymgysylltu, • Roedd y cynllun yn cael ei ddatblygu ar y cyd â datblygu'r gwaith Gweledigaeth, Cenhadaeth, Amcanion Strategol a Gwerthoedd, • Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt a oedd wedi meithrin cytundeb ynghylch y meysydd yr oedd angen iddynt fod yn sail i adran strategol y cynllun; ac • Roedd y trefniadau cynllunio o fewn GIG Cymru yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru yn unol ag adnewyddu

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>Cymru Iachach, a disgwylir Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-28 yn ddiweddarach yn yr hydref.</p> <p>Dywedodd CH fod cynlluniau comisiynu lefel uchel wedi'u datblygu o'r sgysiau parhaus, a nododd yr aelodau themâu o gydweithredu, tegwch a gwerthoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y dull yn y flwyddyn gyntaf o flaenoriaethu ac roedd sganio'r gorwel yn seiliedig ar risg fel y gofynnwyd yn flaenorol, a'r angen am gydweddu â phroses risg Byrddau Iechyd. Y nod oedd dod â blaenoriaethau gwasanaeth cychwynol sy'n dod i'r amlwg yn ôl i'r Sesiwn Datblygu ar 15 Hydref 2024 a chyhoeddi cynlluniau comisiynu terfynol erbyn diwedd mis Hydref 2024.</p> <p>Diolchodd CH i AH a gyflwynodd 2 sylw:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd cydnabod y llinell amser yn anodd, nid oedd hyn yn rhoi llawer iawn o amser ar gyfer y trafodaethau terfynol ac amlygodd yr angen i ymgysylltu; 2. O ran y cynllun tymor canolig, gofynnodd AH i'r aelodau gydnabod y byddai angen i rai o'r pethau rydym yn tynnu sylw atynt ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 ddod yn ôl ar gyfer mewnbwn Iechyd y Cyhoedd. <p>Tynnodd Iolo Doull (ID) sylw at fater hanesyddol, sef nad oedd afiechydon prin iawn wedi cael eu comisiynu'n ffurfiol.</p> <p>Cyflwynodd PW fyfyrddod ar yr amserlen, gan nodi, yn draddodiadol, bod y fframweithiau a'r cyllidebau cynllunio yn digwydd yn gyflym, ac yn mynd i amgylchedd anrhagweladwy o ran yr hyn y gellid ei ddisgwyl. Nododd PW y byddai'r canllaw strategol drafft ar gaffael ar gyfer dadansoddiad PESTLE yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd o fewn yr wythnosau nesaf.</p> <p>Tynnodd MD sylw at y ffaith fod cydweddu'r prosesau cynllunio, ar y cyd, wedi gwella, a chynghorodd fod y prosesau cynllunio yn cydweddu a byddai dull corfforaethol ar y cyd yn cael ei ddefnyddio i reoli'r broses yn effeithiol.</p> <p>Canmolodd LP y broses ac o ystyried y cyd-destun strategol, roedd yn meddwl tybed a oedd cynllun tair blynedd yn ddigon, ac awgrymodd y dylai fod ymarfer sganio gorwel 5-10 mlynedd hefyd. Gofynnodd LP hefyd a ellid rhannu'r dadansoddiad PESTLE gan y byddai hyn yn ddelfrydol i gael ei ymgorffori gan Fyrdau Iechyd.</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
	<p>CAM GWEITHREDU: Rhannu'r dadansoddiad PESTLE sy'n ymwneud â Datblygiad IMTP 2025-2028 ag aelodau'r CBC a Chyfarwyddwyr Cynllunio.</p> <p>Diolchodd AH i CH am y gwaith a wnaed a rhoddodd sylw olaf ar y sefyllfa yn y tymor hwy, gan nodi bod blaenoriaeth gynyddol ynghylch iechyd Menywod. Roedd sgysiau yn parhau gyda Grŵp Rheoli Gwasanaethau Arbenigol ynghylch Iechyd Menywod. Roedd AH yn cydnabod bod heriau i'w hwynebu ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod na fyddai'r holl bethau hyn yn cael eu datrys yn ystod y 12-18 mis nesaf, a chytunodd fod angen sganio'r gorwel yn y tymor hwy a sicrhau bod dadansoddiad PESTLE yn fwy eglur.</p> <p>Croesawodd NR Iechyd Menywod gan grybwyll bod nifer fawr o risgiau wedi bod ar y gofrestr risg mewn perthynas â Menywod a Phlant yn flaenorol, felly roedd hwn yn faes yr oedd angen ei wella.</p> <p>Penderfynodd y Cydbwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2025-28; a • Chymeradwyo'r cynlluniau comisiynu strategol, dadansoddiad PESTLE, a'r broses lefel uchel ar gyfer blaenoriaethu ac asesu risg.
CBC24/083	<p>6.1 Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffarwelio â Chyfarwyddwr Cynllunio'r CBC - ar ran y CBC mynegodd IG ei ddiolch i NJ am ei chefnogaeth a'i harweinyddiaeth broffesiynol dros yr amser yr oedd wedi gweithio i'r CBC a'r hen sefydliad, PGIAC, ac roedd yn cydnabod mai hwn oedd ei chyfarfod olaf cyn ymuno â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a dymunodd bob llwyddiant iddi yn ei rôl newydd.
CBC24/084	<p>6.2 Adolygiad o'r Cyfarfod</p> <p>Gofynnodd IG i'r aelodau roi sylwadau ar y cyfarfod a thrafodwyd a nodwyd y rhain.</p> <p>Dywedodd IG ei fod yn ymwybodol bod llawer o weithgarwch a ffocws ar wasanaethau Ambiwylans a 111 ac roedd yn ymwybodol bod llawer o waith i'w wneud i ddod â llawer o waith manwl yn ôl i gyfarfodydd i ddod, ac roedd yn cydnabod y byddai hyn yn cymryd llawer o amser.</p> <p>Dywedodd AH, oherwydd bod RW wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr ar gyfer Comisiynu Ambiwylans a 111 newydd, nid oedd Dirprwy bellach mewn lle. Felly, byddai'r CBC yn ceisio recriwtio rhywfaint o gefnogaeth tymor byr.</p>

Cyf Cofnod	y Eitem Agenda
CBC24/085	<p>6.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Nododd y CBC mai'r cyfarfodydd nesaf a drefnwyd fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 15 Hydref 2024 – Cyfarfod CBC Eithriadol • 15 Hydref 2024 – Diwrnod Datblygu CBC • 12 Tachwedd 2024 – Cyfarfod CBC
CBC24/086	<p>6.4 Penderfyniad Mewn Pwyllgor</p> <p>Argymhellodd y Cydbwyllgor Comisiynu wneud y penderfyniad canlynol: "Dylid eithrio cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd am weddill y cyfarfod o ystyried natur gyfrinachol yr hyn a drafodir, lle byddai rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn a drafodir yn niweidiol i fudd y cyhoedd" (Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960)".</p>

Daeth y cyfarfod i ben am 12.26.

Llofnod y Cadeirydd:

Dyddiad:.....

